

Lansio Protocol Herbert yng Ngogledd Cymru

Pan fydd person yn mynd ar goll, mae'n brofiad gofidus i deulu a ffrindiau a gall fod hyd yn oed yn fwy gofidus os oes gan yr unigolyn coll ddementia er enghraifft. Mae Bwrdd Diogelu Oedolion Gogledd Cymru yn cefnogi lansiad Protocol Herbert ledled gogledd Cymru.

Mae Protocol Herbert yn ddull syml o leihau risg i helpu'r heddlu i chwilio am Oedolion mewn Perygl sy'n mynd ar goll.

Mae'r ffurflen yn cael ei llenwi gan yr unigolyn sydd mewn perygl, ei deulu neu ofalwyr. Dylai'r gofalwyr, teulu neu ffrindiau gadw'r ffurflen wedi'i llenwi mewn man ddiogel ond lle gellir dod o hyd iddi yn gyflym os bydd unigolyn yn mynd ar goll. Dim ond os adroddir bod yr unigolyn ar goll y bydd yr heddlu yn gofyn am y ffurflen.

<https://youtu.be/ctPX AeQrOZg>